**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**14 MAI 2024**

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mawrth, 14 Mai 2024 (11am)

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dennis Hutchinson (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Helen Brown, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, David Coggins Cogan, Geoff Collett, Steve Copple, Bill Crease, Paul Cunningham, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, David Evans, Chrissy Gee, David Healey, Gladys Healey Ian Hodge, Andy Hughes, Dave Hughes, Ray Hughes, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Simon Jones, Fran Lister, Richard Lloyd, Dave Mackie, Gina Maddison, Roz Mansell, Allan Marshall, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Billy Mullin, Debbie Owen, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Carolyn Preece, David Richardson, Ian Roberts, Dan Rose, Kevin Rush, Dale Selvester, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thew, Linda Thomas, Ant Turton, Roy Wakelam, Arnold Woolley ac Antony Wren

**YMDDIHEURIAD:** Y Cynghorydd Carol Ellis

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Prif Swyddog (Tai a Chymunedau), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygu Sefydliadol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Gwasanaethau Stryd, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm

Gwesteion: Yr Arglwydd Barry Jones a'r Fonesig Janet Jones

## 1. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 2. ADOLYGIAD Y CADEIRYDD O'R FLWYDDYN 2023-24

Fel y Cadeirydd a oedd yn gadael, cyflwynodd y Cynghorydd Gladys Healey ei hadolygiad o'r flwyddyn 2023-24. Mynegodd ei diolch am gael y cyfle i gyflawni'r swydd a diolchodd i'w gŵr a'i chonsort y Cynghorydd David Healey, ei Chaplan a'r swyddogion a oedd i gyd wedi ei chefnogi. Aeth ymlaen i amlygu llwyddiannau codi arian ar gyfer ei helusennau dewisedig ac roedd yn ddiolchgar am gefnogaeth yr Is-Gadeirydd a'i Gonsort yn ystod y flwyddyn heriol hon, a dymunodd yn dda iddynt ar gyfer eu tymor yn y swydd.

## 3. PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2024/25, ARWISGO CADWYN Y SWYDD A LLOFNODI DATGANIAD DERBYN Y SWYDD

Talodd y Cynghorydd Mike Peers deyrnged i'r Cadeirydd ymadawol am y ffordd yr oedd wedi cyflawni ei dyletswyddau trwy gydol ei blwyddyn yn y swydd. Wrth enwebu'r Cynghorydd Dennis Hutchinson yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25, soniodd am ei hanes helaeth mewn llywodraeth leol a'i gyflawniadau personol, gan ddymuno llwyddiant iddo yn ei swydd newydd gyda chefnogaeth ei Gonsort Jeanne.

Wrth eilio'r cynnig, siaradodd y Cynghorydd Ian Roberts o blaid rhinweddau personol y Cynghorydd Hutchinson a manteisiodd ar y cyfle i ganmol y Cynghorydd Gladys Healey am ei blwyddyn lwyddiannus.

Ni chafwyd enwebiadau eraill.

Wedi pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Dennis Hutchinson yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25. Mewn ymateb, diolchodd i'r Aelodau am yr anrhydedd a roddwyd iddo ac ar ôl talu teyrnged i'r Cynghorydd Gladys Healey am ei hymarweddiad yn ystod y flwyddyn, arweiniodd ddiolchiadau gan y Siambr.

Arwisgwyd y Cynghorydd Hutchinson gyda Chadwyn y Swydd gan y Cadeirydd sy'n ymddeol, ac arwyddodd ei Ddatganiad Derbyn Swydd yng ngŵydd y Prif Weithredwr.

Cyflwynwyd Bathodyn y Cadeirydd oedd yn ymddeol i'r Cynghorydd Gladys Healey a chyflwynwyd anrheg i'w Chonosrt, y Cynghorydd David Healey.

Arwisgwyd Consort y Cadeirydd, Mrs Jeanne Hutchinson, gyda Chadwyn y Swydd.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cynghorydd Dennis Hutchinson yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25.

(Ar y pwynt hwn, cadeiriodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson weddill y cyfarfod)

## 4. PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2024/25, ARWISGO CADWYN Y SWYDD A LLOFNODI DATGANIAD DERBYN Y SWYDD

Cynigiodd y Cynghorydd Michelle Perfect y dylid ethol y Cynghorydd Mel Buckley yn Is-Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25 a chanmolodd ei gwasanaeth mewn llywodraeth leol.

Wrth eilio'r cynnig, siaradodd y Cynghorydd Ian Roberts o blaid rhinweddau personol a phroffesiynol y Cynghorydd Buckley, gan ddymuno'n dda iddi yn y swydd.

Ni chafwyd enwebiadau eraill.

Wedi pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Mel Buckley yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25. Ymatebodd y Cynghorydd Buckley trwy ddiolch am yr anrhydedd.

Arwisgwyd y Cynghorydd Buckley gyda Chadwyn y Swydd gan y Cadeirydd, ac arwyddodd ei Datganiad Derbyn Swydd yng ngŵydd y Prif Weithredwr. Byddai Consort y Cynghorydd Buckley, Joe Stonely, yn cael ei arwisgo â Chadwyn y Swydd mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cynghorydd Mel Buckley yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25.

Ar ôl cael gwahoddiad i siarad, talodd yr Arglwydd Barry Jones deyrngedau i'r Cadeiryddion a oedd yn ymadael a'r rhai a oedd yn dod i mewn.

## 5. ETHOL ARWEINYDD Y CYNGOR

Siaradodd y Cynghorydd Paul Johnson o blaid ei enwebiad ar gyfer y Cynghorydd Ian Roberts fel Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25. Ategwyd ei sylwadau gan y Cynghorydd Chris Dolphin a eiliodd y cynnig.

Eglurodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson ei resymau dros fethu â chefnogi’r enwebiad a’i benderfyniad i ffurfio grŵp gwleidyddol newydd, gan alw ar y grwpiau eraill i gydweithio’n adeiladol.

Eiliwyd enwebiad y Cynghorydd Helen Brown ar gyfer y Cynghorydd Richard Jones fel Arweinydd y Cyngor gan y Cynghorydd Mike Peers.

Mewn perthynas ag enwebiadau pellach, cynigiodd y Cynghorydd Gillian Brockley y Cynghorydd Carolyn Preece ac fe’i eiliwyd gan y Cynghorydd Ibbotson.

Eiliwyd enwebiad y Cynghorydd David Coggins Cogan ar gyfer y Cynghorydd Andrew Parkhurst gan y Cynghorydd Carolyn Preece.

Ni chafwyd enwebiadau eraill.

Gofynnodd y Cynghorwyr Coggins Cogan a Sean Bibby ill dau am bleidlais wedi'i chofnodi ar y pedwar enwebiad, a chefnogwyd hynny gan y nifer ofynnol o Aelodau.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr canlynol o blaid y Cynghorydd Richard Jones:
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Helen Brown, Steve Copple, Bill Crease, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Chrissy Gee, Ian Hodge, Andy Hughes, Richard Jones, Dave Mackie, Roz Mansell, Allan Marshall, Debbie Owen, Mike Peers, David Richardson, Dale

Selvester, Jason Shallcross, Linda Thew, Ant Turton, Roy Wakelam ac Antony Wren.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr canlynol o blaid y Cynghorydd Andrew Parkhurst:
Y Cynghorwyr: David Coggins Cogan ac Andrew Parkhurst

Pleidleisiodd y Cynghorwyr canlynol o blaid y Cynghorydd Carolyn Preece:
Y Cynghorwyr: Gillian Brockley, Alasdair Ibbotson, Carolyn Preece, Dan Rose a Sam Swash

Pleidleisiodd y Cynghorwyr canlynol o blaid y Cynghorydd Ian Roberts:
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Chris Bithell, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, Geoff Collett, Paul Cunningham, Ron Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, David Evans, David Healey, Gladys Healey, Dave Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Paul Johnson, Christine Jones, Simon Jones, Fran Lister, Richard Lloyd, Gina Maddison, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Billy Mullin, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Ian Roberts, Kevin Rush, Linda Thomas ac Arnold Woolley.

Wedi pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Ian Roberts yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Ian Roberts yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25.

## 6. PENODI AELODAU'R CABINET GAN ARWEINYDD Y CYNGOR

Yn unol â'r Cyfansoddiad, nododd y Cynghorydd Ian Roberts ei ddewis o Gynghorwyr a fyddai'n gwasanaethu ar y Cabinet. Eglurodd y byddai'n cymryd cyfrifoldeb am Hamdden nes bo'r sefyllfa bresennol wedi'i datrys. Aeth ymlaen i ddiolch i'r Cynghorydd Billy Mullin am ei flynyddoedd o wasanaeth ar y Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r dewis o Gynghorwyr a fyddai'n gwasanaethu ar y Cabinet a'u portffolio a restrir isod.

| Aelod Cabinet | Portffolio |
|---|---|
| Ian Roberts | Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Hamdden |
| Christine Jones | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Dave Hughes | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chludiant |
| Chris Bithell | Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd |
| Paul Johnson | Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol |

| | |
|---|---|
| Sean Bibby | Aelod Cabinet Tai |
| David Healey | Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi |
| Mared Eastwood | Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg a Diwylliant |
| Linda Thomas | Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol |

## 7. MATERION CYFANSODDIADOL GAN GYNNWYS PWYLLGORAU

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog (Llywodraethu) a oedd yn ymdrin â materion y mae angen penderfynu arnynt yn y Cyfarfod Blynyddol, yn unol â Rheol 1.1 (vii)-(xiv) Gweithdrefn y Cyngor. Roedd yr adroddiad hefyd yn ymdrin â phenodi Pwyllgorau a Chadeiryddion eraill a materion eraill fel dyrannu seddi dan gydbwysedd gwleidyddol. Rhannwyd yr adroddiad yn adrannau, gyda phob un yn ymdrin ag un penderfyniad a oedd angen ei wneud, a'r materion perthnasol ar gyfer eu hystyried.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts argymhellion 1, 2 a 3 (yn amodol ar adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ac enw a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd). Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cynghorydd Ted Palmer ac fe'i cymeradwywyd wedi cynnal pleidlais ar y mater.

### (i) Penodi Pwyllgorau

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cyngor yn penodi'r Pwyllgorau canlynol ar gyfer 2024/25:

Pwyllgor Apeliadau
Pwyllgor Newid Hinsawdd
Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd
Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Pwyllgor Cwynion
Pwyllgor Apeliadau Cwynion
Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu
Cydbwyllgor Llywodraethu (ar gyfer Pensiynau)
Pwyllgor Trwyddedu
Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel a ganlyn:

- Tai a Chymunedau
- Adnoddau Corfforaethol
- Addysg, Ieuenctid a Diwylliant
- Yr Amgylchedd a'r Economi
- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Pwyllgor Cynllunio
Pwyllgor Safonau

**(ii) <u>Pennu maint Pwyllgorau</u>**

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod maint pob pwyllgor fel y nodir ym mharagraff 1.03 yr adroddiad.

**(iii) <u>Cylch Gorchwyl Pwyllgorau</u>**

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer pob Pwyllgor, fel y nodir yn y Cyfansoddiad, yn amodol ar adolygiad o'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd.

*Ar y pwynt hwn, cafwyd gohiriad er mwyn ystyried newidiadau i'r cydbwysedd gwleidyddol yn sgil ffurfio'r grŵp gwleidyddol newydd. Ar ôl ailymgynnull, awgrymodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) newid yn nhrefn yr eitemau gan y byddai penodi Cadeiryddion Pwyllgorau yn helpu i lywio Cydbwysedd Gwleidyddol, a rhannwyd dau opsiwn diwygiedig. O'i roi i bleidlais, cytunwyd â hyn.*

**(vi) <u>Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Sefydlog</u>**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod Cadeiryddion Pwyllgorau yn cael eu penodi gan wahanol gyrff fel y nodir ym mharagraff 1.17, gan nodi bod cyfyngiadau o ran cymhwysedd. Er bod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cael eu dewis gan y grwpiau gwleidyddol yn seiliedig ar gryfder y gwahanol grwpiau a oedd â seddi ar y Cabinet, roedd gofyn i'r Cyngor benodi Cadeiryddion ar gyfer pump o'r Pwyllgorau.

Ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, eiliwyd yn briodol enwebiad y Cynghorydd Helen Brown ar gyfer y Cynghorydd Alasdair Ibbotson ac enwebiad y Cynghorydd David Healey ar gyfer y Cynghorydd Geoff Collett.

Awgrymodd y Cynghorydd David Healey fod yr adolygiad o'r Cylch Gorchwyl yn rhoi mwy o ffocws i warchod natur trwy amrywiaeth.

Gofynnwyd am bleidlais wedi ei chofnodi, a chefnogwyd hynny gan y nifer ofynnol o Aelodau.

Pleidleisiodd y canlynol dros y Cynghorydd Collett:
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Chris Bithell, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, Geoff Collett, Paul Cunningham, Ron Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, David Evans, David Healey, Gladys Healey, Dave Hughes, Ray Hughes, Paul Johnson, Christine Jones, Simon Jones, Fran Lister, Richard Lloyd, Gina Maddison, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Billy Mullin, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Ian Roberts, Kevin Rush a Linda Thomas.

Pleidleisiodd y canlynol dros y Cynghorydd Ibbotson:

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Gillian Brockley, Helen Brown, David Coggins Cogan, Steve Copple, Bill Crease, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Chrissy Gee, Ian Hodge, Andy Hughes, Dennis Hutchinson, Alasdair Ibbotson, Richard Jones, Dave Mackie, Roz Mansell, Allan Marshall, Debbie Owen, Andrew Parkhurst, Mike Peers, Carolyn Preece, David Richardson, Dan Rose, Dale Selvester, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thew, Ant Turton, Roy Wakelam ac Antony Wren.

O'i roi i bleidlais, penodwyd y Cynghorydd Ibbotson fel Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd.

Ar gyfer Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, eiliwyd yn briodol enwebiad y Cynghorydd David Coggins Cogan ar gyfer y Cynghorydd Dan Rose ac enwebiad y Cynghorydd Sean Bibby ar gyfer y Cynghorydd Ted Palmer. Gofynnwyd am bleidlais wedi ei chofnodi, a chefnogwyd hynny gan y nifer ofynnol o Aelodau.

Pleidleisiodd y canlynol dros y Cynghorydd Palmer:
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Chris Bithell, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, Geoff Collett, Paul Cunningham, Ron Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, David Evans, David Healey, Gladys Healey, Dave Hughes, Ray Hughes, Paul Johnson, Christine Jones, Simon Jones, Fran Lister, Richard Lloyd, Gina Maddison, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Billy Mullin, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Ian Roberts, Kevin Rush a Linda Thomas.

Pleidleisiodd y canlynol dros y Cynghorydd Rose:
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Gillian Brockley, Helen Brown, David Coggins Cogan, Steve Copple, Bill Crease, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Chrissy Gee, Ian Hodge, Andy Hughes, Dennis Hutchinson, Alasdair Ibbotson, Richard Jones, Dave Mackie, Roz Mansell, Allan Marshall, Debbie Owen, Andrew Parkhurst, Mike Peers, Carolyn Preece, Dan Rose, Dale Selvester, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thew, Ant Turton, Roy Wakelam ac Antony Wren.

O'i roi i bleidlais, penodwyd y Cynghorydd Rose fel Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd.

Ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd, eiliwyd enwebiad y Cynghorydd Helen Brown ar gyfer y Cynghorydd Rob Davies gan y Cynghorydd Mike Peers. Nid oedd yna enwebiadau eraill, ac fe'i cymeradwywyd ar ôl cynnal pleidlais ar y mater.

Ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, eiliwyd yn briodol enwebiad y Cynghorydd Ibbotson ar gyfer y Cynghorydd Peers ac enwebiad y Cynghorydd Sean Bibby ar gyfer y Cynghorydd Rosetta Dolphin. Gofynnwyd am bleidlais wedi ei chofnodi, a chefnogwyd hynny gan y nifer ofynnol o Aelodau.

Pleidleisiodd y canlynol dros y Cynghorydd Peers:
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Gillian Brockley, Helen Brown, David Coggins Cogan, Steve Copple, Bill Crease, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Chrissy Gee, Ian Hodge, Andy Hughes,

Dennis Hutchinson, Alasdair Ibbotson, Richard Jones, Dave Mackie, Roz Mansell, Allan Marshall, Debbie Owen, Andrew Parkhurst, Mike Peers, Carolyn Preece, Dan Rose, Dale Selvester, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thew, Ant Turton, Roy Wakelam ac Antony Wren.

Pleidleisiodd y canlynol dros y Cynghorydd Rosetta Dolphin:
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Chris Bithell, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, Geoff Collett, Paul Cunningham, Ron Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, David Evans, David Healey, Gladys Healey, Dave Hughes, Ray Hughes, Paul Johnson, Christine Jones, Simon Jones, Fran Lister, Richard Lloyd, Gina Maddison, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Billy Mullin, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Ian Roberts, Kevin Rush a Linda Thomas.

O’i roi i bleidlais, penodwyd y Cynghorydd Mike Peers fel Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu.

Ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, enwebodd y Cynghorydd Richard Jones y Cynghorydd Richard Lloyd. Nid oedd yna enwebiadau eraill, ac fe’i cymeradwywyd ar ôl cynnal pleidlais ar y mater.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Cadeiryddion y Pwyllgorau canlynol yn cael eu penodi (gan nodi unrhyw gyfyngiadau ar gymhwysedd):

- Pwyllgor Newid Hinsawdd - y Cynghorydd Alasdair Ibbotson
- Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd - Y Cynghorydd Dan Rose
- Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd – Y Cynghorydd Rob Davies
- Pwyllgor Trwyddedu – Y Cynghorydd Mike Peers
- Pwyllgor Cynllunio - Y Cynghorydd Richard Lloyd

(b) Bod y Pwyllgor Cwynion, y Pwyllgor Apeliadau Cwynion a’r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn penodi eu Cadeiryddion eu hunain o blith eu haelodau priodol.

**(iv) Cydbwysedd Gwleidyddol**

Nododd yr adroddiad sail y gofyniad statudol ar gyfer dyrannu seddi pwyllgorau i grwpiau gwleidyddol yn ogystal â gwahanu’r pwyllgorau ‘cyflogaeth’ i sicrhau nad oedd grwpiau llai dan anfantais; arfer a oedd yn galw am gytundeb penodol gan bob Aelod. Nid oedd y rheolau’n berthnasol i’r Cabinet na’r Pwyllgor Safonau.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) at y ddau opsiwn ychwanegol a oedd wedi'u dosbarthu a dywedodd nad oedd opsiwn 5 yn cyd-fynd â Chadeiryddion y Pwyllgorau a bennwyd yn yr eitem flaenorol. Cafodd ei argymhelliad y dylid mabwysiadu'r ail opsiwn (di-deitl) ei roi i bleidlais ac fe’i cymeradwywyd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Dyrannu'r seddi yn unol â chydbwysedd gwleidyddol, fel y'i nodir yn y daenlen ddiwygiedig a rheolau aelodaeth Pwyllgorau, fel y'u nodir yn yr adroddiad; a

(b) Dyrannu'r seddi ar y Pwyllgor Cwynion, Pwyllgor Apeliadau Cwynion a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu i roi amrediad gwleidyddol eang i'r aelodaeth.

**(vi) Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y gofynion ar gyfer penodi Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gan ystyried cryfder y gwahanol grwpiau gwleidyddol a'r rhai sydd â seddi ar y Cabinet. Yn olaf, roedd gan y grwpiau Llafur ac Annibynnol hawl i ddwy sedd ac roedd gan grŵp newydd Llais y Bobl Sir y Fflint hawl i un sedd.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Jones bod y grŵp Annibynnol yn cadw Cadeiryddion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai. Cynigiodd hefyd fod grŵp Llais y Bobl Sir y Fflint yn enwebu Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, a'r grŵp Llafur yn enwebu cadeiryddion ar gyfer y ddau bwyllgor sy'n weddill. Eiliwyd hyn yn briodol ac o'i roi i bleidlais, cafodd ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cael eu dyrannu fel a ganlyn:

| **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:** | **Grŵp i ddewis Cadeirydd:** |
|---|---|
| Tai a Chymunedau | Annibynnol |
| Adnoddau Corfforaethol | Annibynnol |
| Addysg, Ieuenctid a Diwylliant | Llafur |
| Yr Amgylchedd a'r Economi | Llafur |
| Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | Llais y Bobl Sir y Fflint |

**(vii) Cymeradwyo'r Cyfansoddiad**

Gofynnodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) am gymeradwyaeth i'r Cyfansoddiad a oedd yn manylu ar swyddogaethau'r Cyngor ac a oedd yn cael ei adolygu'n barhaus.

O'i roi i bleidlais, cafodd yr argymhelliad ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r rheolau, gweithdrefnau, dirprwyaethau a'r codau / protocolau sydd yn y Cyfansoddiad.

**(viii)** **Enwebu i Gyrff Mewnol**

Roedd y Cynllun Dirprwyo presennol yn darparu ar gyfer Pwyllgor Penodiadau ar gyfer swyddogion haen gyntaf ac ail haen, yn cynnwys saith Aelod. Nid oedd hwn yn Bwyllgor sefydlog a byddai'n cael ei gynnull pan fo angen drwy geisio enwebiadau gan Arweinwyr Grŵp.

Cynigiodd y Cynghorydd Marion Bateman y dylid cymeradwyo'r argymhellion ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Roy Wakelam. O'i roi i'r bleidlais, cymeradwywyd hyn.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cyfansoddiad y Pwyllgor Penodiadau.

**(ix)** **Pwyllgor Safonau**

Eglurodd y Prif Swyddog gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau, gan gynnwys y tri Chynghorydd Sir a benodwyd tan fis Ebrill 2027. Gan fod y Cynghorydd Andrew Parkhurst wedi gadael y Pwyllgor, gofynnwyd am enwebiadau i gymryd ei le am weddill y tymor hwn.

Cynigiodd y Cynghorydd Helen Brown y dylai'r Cynghorydd Ian Hodge gael ei benodi. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Richard Jones ac o'i roi i bleidlais, cafodd ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Ian Hodge fel trydydd Cynghorydd i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau am weddill y tymor hwn.

**(x)** **Penodiadau i Gyrff Allanol**

Gan fod penodiadau wedi'u gwneud yng Nghyfarfod Blynyddol 2022 am dymor cyfan y Cyngor, gofynnwyd am gymeradwyaeth i roi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grwpiau, i wneud unrhyw newidiadau i benodiadau i gyrff allanol, yn ôl yr angen.

Cafodd yr argymhelliad ei roi i bleidlais a'i gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grwpiau, i wneud unrhyw ddiwygiadau i benodiadau i gyrff allanol yn ôl y gofyn.

**8.** **SIARTER RHIANTA CORFFORAETHOL 'ADDEWID CYMRU'.**

Fel Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, cyflwynodd y Cynghorydd Christine Jones y Siarter Rhianta Corfforaethol, a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru yn cael eu tanategu gan rymuso, cydraddoldeb,

dim gwahaniaethu, cyfranogiad, ac atebolrwydd ac amddiffyn. Gofynnwyd i'r aelodau ailddatgan eu cyfrifoldeb ar y cyd fel 'rhieni corfforaethol' drwy fabwysiadu'r Siarter, gydag ymrwymiad i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i fesur llwyddiant sefydliadol ac ymrwymiad i'r Siarter.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Richard Jones a Chris Bithell.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Cyngor Sir y Fflint yn llofnodi'r 'addewid' a mabwysiadu Siarter Rhianta Corfforaethol: 'Addewid Cymru'; a

(b) Bod y Fforwm Gwasanaethau Plant yn arwain y gwaith o fesur llwyddiant ac ymrwymiad sefydliadol i'r Siarter Rhianta Corfforaethol.

## 9. AMSERLEN O GYFARFODYDD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr amserlen o gyfarfodydd ar gyfer 2024/25 yn dilyn ymgynghoriad. Roedd nifer o gonfensiynau wedi'u mabwysiadu er mwyn osgoi gwrthdaro rhwng cyfarfodydd a bodloni dymuniadau'r Aelodau lle bo hynny'n bosibl. Byddai argymhelliad ychwanegol ar gyfer newid dyddiadau / amseroedd mewn amgylchiadau eithriadol yn ôl disgresiwn y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor yn helpu i adeiladu hyblygrwydd.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, gofynnodd y Cynghorydd Richard Lloyd i'r ymweliadau safle a drefnwyd ar gyfer 27 Awst a'r cyfarfod ar 28 Awst gael eu symud i 2 Medi a 4 Medi yn y drefn honno. Gofynnodd hefyd a fyddai modd dychwelyd at gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio am 1pm ar ddyddiau le nad oedd cyfarfodydd wedi'u trefnu yn y boreau. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Mike Peers.

Gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones am gael symud cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 16 Ionawr a 13 Chwefror 2025 i'r diwrnodau canlynol (boreau Gwener) oherwydd bod cyfarfodydd eraill wedi'u trefnu ar gyfer y prynhawniau. Awgrymodd efallai y byddai Aelodau'r Pwyllgor hwnnw'n dymuno ystyried slotiau rheolaidd ar ddydd Gwener er mwyn osgoi gwrthdaro rhwng cyfarfodydd.

Siaradodd Aelodau eraill o blaid cael gwared ar y confensiwn i gynnal cyfarfodydd pwyllgor ar ddiwrnodau penodedig a fyddai'n caniatáu hyblygrwydd i'r dyddiadur.

Eglurodd y Prif Swyddog y newidiadau arfaethedig a fyddai'n cael eu symud ymlaen gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm.

Ar y sail honno, cafodd y newidiadau eu rhoi i bleidlais a chawsant eu cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r amserlen ddrafft o gyfarfodydd ar gyfer 2024/25, yn amodol ar y newidiadau canlynol:
- Dileu'r gofyniad i gyfarfodydd pwyllgor gael eu cynnal ar ddiwrnodau penodedig.
- Symud dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio ym mis Awst i'r wythnos ganlynol.
- Newid amser cychwyn cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio i 1pm pan nad oes cyfarfodydd wedi'u trefnu yn y boreau.
- Symud dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ym misoedd Ionawr a Chwefror 2025 i foreau Gwener.

(b) Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn cael awdurdod dirprwyedig, ar y cyd â Chadeirydd y Pwyllgor perthnasol, i ddiwygio'r Rhestr Cyfarfodydd mewn amgylchiadau eithriadol.

## 10. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Roedd pum aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11am a daeth i ben am 2.55pm)

**…………………………..**
**Y Cadeirydd**